

Tasg 1

Hawliau pwysicaf

Pa rai o'r hawliau yw'r pwysicaf?

Ceisiwch eu trefnu yn ôl pwysigrwydd – gyda rhif 1 yn nodi'r hawl bwysicaf ...

	Erthygl 3: Dylai oedolion wneud yr hyn sydd orau i ti.
	Erthygl 6: Mae gen ti hawl i fyw.
	Erthygl 14: Mae gen ti hawl i feddwl beth fynni di a dilyn pa grefydd bynnag rwyd ti eisiau.
	Erthygl 15: Mae gen ti hawl i wneud ffrindiau.
	Erthygl 17: Mae gen ti hawl i gasglu gwybodaeth o'r radio, papurau newydd, y teledu, llyfrau, ac yn y blaen, o unrhyw le yn y byd.
	Erthygl 19: Ddylai neb dy frifo mewn unrhyw ffordd.
	Erthygl 24: Mae gen ti hawl i iechyd da.
	Erthygl 27: Mae gen ti hawl i fwyd, dillad a lle i fyw.
	Erthygl 28: Mae gen ti hawl i addysg.
	Erthygl 30: Mae gen ti hawl i fwynhau dy ddiwylliant dy hun, dilyn dy grefydd dy hun a defnyddio dy iaith dy hun.
	Erthygl 31: Mae gen ti hawl i chwarae.
	Erthygl 37: Ddylet ti ddim cael dy roi yn y carchar.